# POLISI AMDDIFFIN PLANT

**CYDLYNYDD AMDDIFFIN PLANT YR YSGOL/SWYDDOG LLES PLANT (CAP/SLP):**
*Mrs Heulwen Jones (Pennaeth Cynorthwyol)*
**CYDLYNYDD AMDDIFFIN PLANT CYNGOR SIR GAERFYRDDIN**
*Rachel Copp (Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol)*
**LLYWODRAETHWR GYDA CHYFRIFOLDEB AM AMDDIFFIN PLANT**
*Mr Steffan Rogers*

Mae gan Ysgol y Strade mecanweithiau ar gyfer adolygu'r polisi a monitro ei heffeithiolrwydd. Rhaid i'r polisi gael ei adolygu'n flynyddol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth a'r Llywodraethwr Amddiffyn Plant Penodedig yw sicrhau fod y polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol trwy'i roi yn eitem sefydlog ar agenda'r corff llywodraethu. Dylai'r Polisi Amddiffyn Plant yma gael ei ddarllen ar y cyd â Dogfennau Diogelu eraill sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol:-

- Presenoldeb
- Polisi Gwrthfwlio
- Polisi Atal ac Ymyrraeth Gorfforol
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Ymweliadau oddi ar y Safle
- Iechyd a Diogelwch
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Polisi Ymddygiad
- Honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon ac aelodau eraill o staff
- Plant ag Anghenion Ychwanegol
- Diogelwch ar-lein
- Gofal Personol
- Cod Ymddygiad Staff
- Recriwtio a Dethol Staff
- Camddefnyddio Sylweddau

**CYFLWYNIAD**

Mae Ysgol Y Strade yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant. Prif elfennau ein polisi yw:

- atal trwy'r addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion, a defnyddio gwasanaethau ataliol, fel Tîm o amgylch y Teulu (TAF) mewn ysgolion
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin neu niwed. Oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae staff ysgolion mewn sefyllfa dda i arsylwi arwyddion allanol cam-drin,
- cefnogaeth i ddisgyblion sydd mewn angen neu a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn berthnasol i **BOB** aelod o staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Gall cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, staff gweinyddol yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf plentyn. Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi bob blwyddyn ac wedi ymrwymo i ddilyn unrhyw ganllawiau newydd a dderbynnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu Lywodraeth Cymru.

Fel oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol, rydym mewn sefyllfa dda i fedru canfod arwyddion o gam-drin yn y plant sydd o dan ein gofal. Gan ein bod yn gweld y plant bob dydd ac yn ymwybodol o'u datblygiad yn gyffredinol, gallwn sylwi ar unrhyw newid yn y plentyn a all ddynodi bod rhywbeth o'i le. Gall fod yna eglurhad syml i'r newid ond mae angen i ni fod yn effro ac ymateb i unrhyw arwydd o anhapusrwydd, niwed neu esgeulustod.

Pan fod gweithwyr proffesiynol, sef Swyddog Amddiffyn Plant, Cynghorydd, Nyrs Ysgol, Seicolegydd Addysg, Gweithiwr Ieuenctid, Staff y Tîm Cymorth Ymddygiad, Athrawon Peripatetig, Tiwtoriaid Cartref, ayyb yng nghlwm gyda phlant yn cael ei amau o, neu mewn perygl o gael ei gam-drin, dyler hysbysebu'r Swyddog Ammddiffyn Plant **AR UNWAITH** yn dilyn y camau a nodwyd eisoes.

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n mynychu. Os oes pryderon ynghylch esgeulustod neu gam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol yna bydd staff yn gweithredu yn unol â **'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' a 'Protocol a Gweithdrefnau Rhyngasiantaethol yng Nghaerfyrddin ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u teuluoedd'**.

**Mae'n ddyletswydd ar yr holl staff i gyfeirio'r mater i'r Swyddog Amddiffyn Plant yn Ysgol Y Strade**

Nid yw cam-drin plant wedi ei gyfyngu i un sector o gymdeithas – gall ddigwydd yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd.

Mae'r ddogfen hon yn:

- amlinellu'r arwyddion a'r symptomau o gam-drin plant
- egluro beth ddylech ei wneud os ydych yn amau camdriniaeth neu os yw plentyn yn datgelu camdriniaeth i chi
- dweud wrthych beth yw'r camau nesaf.

Mae holl staff a Llywodraethwyr Ysgol y Strade yn cydnabod yn llawn cyfrifoldebau, trefniadau a'r cyfraniad sydd ar waith wrth sicrhau diogelu a hyrwyddo lles ei disgyblion.

Rydyn ni'n cydnabod bod pob aelod o staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, â rhan lawn a gweithredol i'w chwarae wrth amddiffyn ein disgyblion rhag niwed trwy ddarparu amgylchedd gofalgar, cadarnhaol, diogel ac ysgogol, sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, corfforol a moesol y disgybl unigol.

**Pwrpas y polisi yma yw:**

- Hyrwyddo dealltwriaeth y gall disgybl sy'n cael ei gam-drin neu sy'n dyst i drais, gael ei effeithio'n ddwys ac y gall hyn amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd;
- Cydnabod y gall ysgol ddarparu'r unig sefydlogrwydd ym mywydau plant sydd wedi'u cam- drin neu sydd mewn perygl o niwed;
- Sefydlu a chynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad a deall bod staff yn barod i wrando;
- Hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau;
- Darparu amgylchedd gofalgar lle mae hunan-barch a hunan-bendantrwydd yn cael eu hyrwyddo i bob disgybl, gan gynnwys y sawl sy'n agored i niwed;
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallan nhw fynd atyn nhw, os ydyn nhw'n poeni neu mewn trafferthion;
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm, sy'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i blant er mwyn cadw'n ddiogel rhag cam-drin ac i wybod at bwy i droi am gymorth;
- Cefnogi datblygiad plant mewn ffyrdd fydd yn meithrin sicrwydd, hyder, ac annibyniaeth;
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd yn oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a rhieni;
- Gwella ymwybyddiaeth ymhlith staff addysgu a staff cynorthwyol/eraill am yr angen i ddiogelu plant, ac am eu cyfrifoldebau wrth adnabod achosion posibl o gam-drin a hysbysu rhywun;
- Darparu dull systematig o fonitro plant sydd mewn perygl - boed hynny'n hysbys neu'n dybiedig;
- Pwysleisio'r angen am lefelau uchel o gyfathrebu rhwng holl aelodau o'r staff;
- Datblygu gweithdrefn strwythuredig o fewn y lleoliad addysgol, a fydd yn cael ei dilyn gan bob aelod o'r gymuned addysgol mewn achosion o gam-drin tybiedig;
- Datblygu a hyrwyddo perthnasau gwaith effeithiol gydag asiantaethau eraill, yn enwedig yr Heddlu a'r Gwasanaethau i Blant;
- Sicrhau bod yr holl oedolion yn yr ysgol, sydd mewn cysylltiad â'r plant, wedi cael eu gwirio o ran eu haddasrwydd, yn unol ag arweiniad statudol.

**ATAL**

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Bydd yr ysgol felly yn:

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad, ac yn cael gwrandawiad
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn y lleoliad addysg y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu'n cael anhawster
- Cynnwys yn y cwricwlwm weithgareddau a chyfleoedd ar gyfer addysg perthnasoedd a rhywioldeb sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy i droi am gymorth
- Cynnwys yn y cwricwlwm ddeunydd a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau magu plant.
- Meithrin perthnasoedd ag asiantaethau eraill a sicrhau bod atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth yn cael eu gwneud cyn i risgiau gynyddu
- Cymryd agwedd ysgol gyfan (lleoliad) at les a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd

**GWEITHDREFNAU**

Dylid dilyn y rhain os ceir datgeliad/pryder amddiffyn plant. Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau bod ganddo Uwch Berson Dynodedig (DSP) ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi dilyn yr hyfforddiant priodol. Cydnabod rôl y DSP a threfnu cefnogaeth a hyfforddiant
- Sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
  – enw'r Uwch-swyddog Dynodedig a'i rôl, pwynt cyswllt yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
  – bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros adrodd am blant sy'n wynebu risg a phryderon amddiffyn i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu, o fewn yr amserlenni cytuno â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sut i fynd â'r pryderon hynny ymlaen pan nad yw'r DSP ar gael
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod, ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr a allai ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod
- Sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi cofrestru gyda CGA yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (gweler isod) a'r disgwyliad yn y Cod bod yr aelod cofrestredig yn ystyried diogelwch a llesiant dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/documents/fitness-to-practice/157-ewc-code-of-professional-conduct-and-practice/file.html
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y cyfrifoldeb sydd ar yr ysgol a staff am ddiogelu ac amddiffyn plant
- Darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod yn:
  - deall eu cyfrifoldeb personol
  - gwybod y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
  - yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeulustod
  - gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod
  - deall y rôl y gall ymddygiadau ar-lein ei chwarae ym mhob un o'r uchod
- Hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol os:
  - mae dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
  - bod dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod o'r ysgol (neu un diwrnod ar ôl penwythnos)
  - gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl yr angen gyda'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiad cychwynnol yn ogystal â chynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau
  - cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith
  - sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo
  - cadw at y gweithdrefnau a nodir yn Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo ar gyfer Staff Ysgol Llywodraeth Cymru: Canllawiau diwygiedig ar gyfer Cyrff Llywodraethu (gweler llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgolion)
  - sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel Llywodraeth Cymru
  - dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwylio polisi ac arfer amddiffyn plant yr ysgol.

**BETH YW CAM-DRIN PLANT?**

Bob wythnos mae o leiaf un plentyn yn cael ei ladd gan riant neu ofalwr. Yn 2016/17 roedd enwau 1,350[1] o blant yng Nghymru a Lloegr ar Gofrestrau Diogelu Plant gan iddynt ddioddef camdriniaeth neu oherwydd eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin. Yn anffodus, mae llawer mwy o blant na chaiff eu hamgylchiadau sylw. Dyna pam, fel rhywun sy'n gweithio gyda phlant, y gallai'n rôl ni fod yn dyngedfennol mewn hysbysu'r awdurdodau o'r ffaith bod plentyn yn dioddef.

Defnyddir y term 'cam-drin' plant i ddisgrifio ystod o ffyrdd y bydd pobl, oedolion rhan amlaf, yn niweidio plant. Yn aml bydd yr oedolyn yn hysbys i'r plentyn ac y bydd yn ymddiried ynddo, megis rhiant, perthynas neu ffrind i'r teulu.

**Gall cam-drin plant fod ar amryw ffurf:**

- Esgeulustod
- Cam-drin Corfforol
- Cam-drin Rhywiol
- Cam-drin Emosiynol

**Esgeulustod**
I ddatblygu'n oedolion iach ac annibynnol, rhaid i bob plentyn gael digon o fwyd, gofal iechyd ac addysg.

**Gall plentyn ddioddef o esgeulustod pan:**

- na fydd unrhyw rai o'i anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys cael diet annigonol, gwrthod gofal iechyd iawn iddo neu fod heb ddigon o ddillad amdano.
- cael ei adael heb ei arolygu mewn sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus, boed hynny gartref neu yn rhywle arall.
- ei fod yn cael ei adael ar ei ben ei hun pan fydd o oedran lle mae hynny'n amhriodol ar gyfer ei ddatblygiad corfforol neu emosiynol.

**Arwyddion posibl o esgeulustod:**

- Glendid personol isel
- Gwisg anaddas
- Ddim yn cymysgu
- Eiddil a gwan – diffyg maeth
- Gofyn am fwyd o hyd
- Colli ysgol yn aml
- Cyrraedd yn hwyr
- Yn dwyn pethau
- Blinder parhaus
- Wastad ar ei ben ei hun
- Methu canolbwyntio
- Oediad datblygiadol amlwg
- Prinder iaith
- Llefaru'n wael
- Problemau meddygol heb eu trin
- Ymddygiad anarferol e.e. sugno bys, troi cudyn o wallt, siglo'n barhaus

**NODER** Ni fyddai sylwi ar un o'r symptomau uchod yn debygol o ddynodi esgeulustod ond mi fyddai gweld cyfuniad ohonynt yn peri i rywun amau bod plenty yn cael ei esgeuluso.

---

[1] https://learning.nspcc.org.uk/media/1184/child-protection-register-statistics-wales.pdf

**Cam-drin corfforol**

**Bydd cam-drin corfforol yn digwydd pan fydd oedolyn:**

- yn brifo neu'n anafu plentyn yn gorfforol drwy ei daro, ei ysgwyd, ei wasgu, ei losgi, ei frathu neu geisio ei foddi neu ei fygu
- yn peri niwed i blentyn drwy roi alcohol, cyffuriau amhriodol neu wenwyn i'r plentyn
- yn methu rhwystro anaf corfforol neu ddioddefaint e.e. peidio â gosod sgrin dân.

Nid yw hyn i ddweud pryd bynnag y caiff anaf ei achosi i blentyn bod yn rhaid iddo fod yn achos o gam-drin corfforol. Gallai'r anaf gael ei achosi'n ddamweiniol e.e. wrth chwarae. Yr hyn sy'n bwysig yw a gafodd y plentyn ei roi mewn perygl o fwriad neu a dalodd y rhieni sylw rhesymol i ddiogelwch eu plentyn.

**Arwyddion posibl o gam-drin corfforol:**

***Anafiadau:***

- Cleisiau neu friwiau ar yr wyneb ac o gwmpas y pen
- Anafiadau neu rwygiadau i'r geg
- Anafiadau i'r llygaid
- Nifer o gleisiau bach yn dangos patrwm bysedd – arwydd o ysgytwad trwm neu wasgu caled
- Ôl cnoad neu frathiad yn rhywle ar y corff
- Llosgiadau – tân, dŵr neu sigarennau
- Tor asgwrn
- Marciau coch ac ymchwyddiadau ar y corff a allai ddynodi cweir

***Ymddygiad:***

- Agwedd ymosodol tuag at eraill
- Dim esboniad yn cael ei gynnig am anafiadau
- Esgusodion annhebygol yn cael eu cynnig am anafiadau
- Gwrthod trafod unrhyw anaf
- Gwrthod newid gwisg nac i gymryd rhan mewn ymarfer corff/chwaraeon
- Plentyn yn ofnus ac yn cilio rhag cyffyrddiadau corfforol
- Anafiadau sydd heb eu trin
- Plentyn yn ofni mynd adref
- Plentyn yn ofni archwiliad
- Plentyn sydd o hyd yn mynnu sylw
- Plentyn sy'n rhedeg i ffwrdd o'i gartref
- Unrhyw gyfaddefiad o gosbi eithafol

**NODER** Ni fyddai canfod un o'r symptomau uchod ar ei ben ei hun o reidrwydd yn dynodi cam-drin corfforol ond dylai cyfuniad ohonynt wneud i rywun amau a yw plentyn yn cael ei gam-drin.

**Cam-drin rhywiol**

Bydd cam-drin rhywiol yn digwydd pan fydd rhywun yn camddefnyddio eu pŵer, awdurdod neu eu safle ac yn defnyddio plentyn yn rhywiol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Mae bechgyn a merched yn cael eu cam-drin yn rhywiol a gall ddechrau gyda babanod sydd ond yn ychydig fisoedd oed.

**Gall cam-drin rhywiol fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:**

- denu neu orfodi plentyn i gymryd rhan mewn byseddu, mastyrbio, dinoethiad anweddus, tynnu lluniau pornograffig, ymgais i gael cyfathrach rywiol neu dreisio
- gwneud i blentyn wylio ymddygiad rhywiol amhriodol
- dangos llyfrau/cylchgronau, fideos neu luniau pornograffig i blentyn neu drafod yn amhriodol gyda hwy ynglŷn â materion rhywiol

Er enghraifft, mae'n cam-drin rhywiol i oedolion ganiatáu, neu orfodi plentyn i'w gwylio yn cael rhyw.

**Arwyddion posibl o gam-drin rhywiol:**

- Arddangos ofn dybryd o un person
- Colli hyder a gwrthod gollwng llaw rhiant oherwydd ofn
- Syllu i'r unfan
- Yn gyffredinol anhapus a thrist
- Newid annisgwyl mewn ymddygiad – o fod yn hapus a gweithgar i fod yn encilgar ac ofnus
- Gwrthod bwyta
- Cyfeirio at gyfrinachau nad ydynt i'w datgelu – neu ofyn i chi gadw cyfrinach
- Anfodlon newid ar gyfer ymarfer corff
- Colli mwynhad mewn gweithgareddau a arferai rhoi pleser iddynt megis chwaraeon, cerddoriaeth, celf
- Osgoi archwiliadau meddygol
- Manylder rhannau rhywiol y corff i'w gweld mewn gwaith celf
- Cwyno am boen, crafu neu losgi yn rhannau rhywiol genidol y corff
- Rhedeg i ffwrdd byth a beunydd
- Dechrau gwlychu ei hun/y gwely
- Gostyngiad amlwg mewn aeddfedrwydd ymddygiad
- Yn aflonydd ac yn methu canolbwyntio

**NODER** Ni fyddai sylwi ar un o'r arwyddion uchod yn golygu bod plentyn yn dioddef camdriniaeth rywiol. Rhaid edrych ar y plentyn cyfan a chysylltu'r arwyddion yma gyda symptomau 'amheus' eraill megis ymarweddiad y plentyn, ei ddulliau chwarae ac ati.

**Cam-drin emosiynol**

Gall y maes hwn fod yn anoddach i'w ddiffinio na'r mathau eraill o gamdriniaeth. Mae cam-drin emosiynol neu wrthod parhaus yn cael effaith ddifrifol ar ddatblygiad y plentyn.

**Mae cam-drin emosiynol yn cynnwys y canlynol:**

- gwrthod cariad ac anwyldeb yn barhaus, sy'n hanfodol i ddatblygiad emosiynol naturiol y plentyn
- gweiddi ar, bygwth, neu ddiraddio'r plentyn
- bod yn or-amddiffynol yn barhaus i'r graddau nad yw'r plentyn yn cael cymysgu gydag eraill
- aflonyddu hiliol neu aflonyddu arall sy'n tanseilio hunan-barch y plentyn a rhwystro'r plentyn rhag datblygu hunanddelwedd gadarnhaol.

**Rhai arwyddion posibl:**

- Diffyg hunanhyder; ystyried ei hun yn israddol
- Methu dygymod ag unrhyw ganmoliaeth
- Yn awyddus i blesio; yn chwilio am sylw o hyd
- Methu ymuno mewn hwyl a sbri

- Ymateb yn annaturiol i boen a dolur
- Byth am i'r ysgol gysylltu â'r rhieni
- Ofn gwneud camgymeriad - ac yn gôr ymateb os digwydd hyn
- Ofn wynebu sefyllfaoedd newydd/dieithr
- Ymddygiad herfeiddiol, gwrthwynebus neu ymosodol
- Iselder ysbryd
- Oediad datblygiadol amlwg
- Bob amser yn wyliadwrus o eraill

**NODER** Ni fyddai canfod un o'r arwyddion uchod yn peri i rywun ddrwgdybio cam-drin emosiynol ond pe bai plentyn yn arddangos clwstwr o'r symptomau dylid wedyn bod yn fwy gwyliadwrus.

**Salwch wedi'i ffugio neu achosi**
Gall y ffactorau canlynol ddynodi bod plentyn yn dioddef salwch wedi'i ffugio neu ei achosi.

**Arwyddion posib o salwch wedi'i ffugio:**
- Absenoldebau niferus, yn aml heb esboniad
- Absenoldebau aml er mwyn ymweliadau â'r ysbyty neu'r meddyg
- Rhiant/gofalwr yn honni o hyd bod plentyn yn sâl yn rheolaidd ac angen triniaeth feddygol am symptomau neu salwch nad yw staff wedi sylwi arnynt
- Straeon anghyson neu'n amlwg nad ydynt yn wir am salwch, damweiniau neu farwolaethau yn y teulu.

Byddwch yn wyliadwrus o newidiadau arwyddocaol yng nghyflwr corfforol neu emosiynol plentyn, anafiadau heb eu hesbonio, newidiadau mewn ymddygiad a methiant i ffynnu.

**RHEOLI EIN TEIMLADAU EIN HUNAN**

Mae'r ffaith bod cam-drin yn digwydd yn peri poen meddwl a phryder. Mae'n naturiol i ni deimlo sioc neu fod yn flin. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ni reoli ein teimladau ein hunan fel y gallwn ymateb yn briodol. Cofiwn ein bod yn chwarae rôl dyngedfennol yn natblygiad y plant sydd yn ein gofal ac mae angen i ni werthfawrogi'r cyfraniad yr ydym yn ei wneud i'w bywydau hwy.

**PAM DYLEM WEITHREDU?**

Nid yw gweithredu mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywbeth hawdd, ond un o'r pethau gwaethaf y gallwn wneud yw dim. Mae nifer o ymholiadau cam-drin plant wedi dangos bod methu â gweithredu wedi golygu anaf difrifol neu farwolaeth. Gallai ein gwybodaeth ni fod yn dyngedfennol mewn atal cam-drin pellach.

Mae diogelwch a lles plant o'r pwys mwyaf a rhaid cymryd pob pryder ynglŷn â cham-drin plant o ddifrif. Mae diogelwch plant yn disodli pob ystyriaeth arall, gan gynnwys cyfrinachedd.

**Cofier bob amser, yn ôl y Ddeddf, mai tynnu sylw'r awdurdodau priodol at achosion yw'n gwaith ni yn yr ysgol, nid ymchwilio iddynt.**

**PA GAMAU DYLID EU CYMRYD?**

Dylech wybod beth i'w wneud os ydych yn amau bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin, neu os dywed rhywun wrthych fod hynny'n digwydd.

Bydd y pwyntiau canlynol yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch beth i'w wneud:

- Byddwch bob amser yn barod i wrando ar rywun sydd am ddweud wrthych am achos o gamdriniaeth neu amheuon o hynny. Cofiwch fod plentyn/person ifanc yn dweud rhywbeth wrthych oherwydd ei fod yn ymddiried ynoch ac efallai na ddywedant wrth unrhyw berson arall byth eto.
- Ysgrifennwch nodiadau manwl o'r hyn ddywedwyd wrthych cyn gynted â phosib ar ôl hynny. Ceisiwch ddefnyddio'r union eiriau gan y gallai hynny fod yn bwysig yn nes ymlaen. Peidiwch â phoeni am daclusrwydd.
- Peidiwch ag addo cadw cyfrinach. Mae'n rhaid rhoi gwybod am gamdriniaeth plant a gallai torri addewid o ran cadw cyfrinach arwain at achosi pryder pellach i'r plentyn. Byddwch yn agored bob amser ac eglurwch y byddwch yn dweud wrth y rhai hynny sydd angen gwybod yn unig.
- Peidiwch â tharfu ar ddatgeliad drwy ofyn cwestiynau. Os ydych angen gofyn cwestiwn, cadwch hwy'n syml, h.y. "Beth wyt ti eisiau'i ddweud?" neu "Oes gen ti rywbeth arall i'w ddweud?"
- Peidiwch byth â gofyn cwestiynau arweiniol, e.e., "A wnaeth e/hi …….. i ti?"
- Mae gan yr ysgol gydgysylltydd amddiffyn plant dynodedig, sef y Cydlynydd Lles. Dylid rhoi'r wybodaeth i'r Cydlynydd Lles (neu'r Pennaeth os yn absennol) cyn gynted â phosib.
- Yn gyffredinol, mae'n well troedio'n ofalus, gan rannu eich pryderon.

**SUT DYLAI'R CYDGYSYLLTYDD AMDDIFFYN PLANT DYNODEDIG YMATEB?**

- Yn y mwyafrif o achosion (esgeulustod neu gam-drin emosiynol) bydd y Cydlynydd Lles yn medru trafod gyda'r Pennaeth Safonau priodol, rhieni/gofalwyr, nyrs yr ysgol, Cwnselydd yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Dylid ceisio caniatâd y rhieni er mwyn cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol oni bai yr ystyrir bod hyn yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl. Pan ystyrir bod rhiant neu ofalwr yn gyfrifol am gam-drin plentyn yn gorfforol neu'n rhywiol, ni chynghorir trafod hyn gyda'r rhieni heb gyngor gan yr heddlu neu'r adran gwasanaethau cymdeithasol.
- **Mae'n ddyletswydd arnom i gyd sicrhau bod y plentyn yn ddiogel**. Os amheuir cam-drin corfforol neu rywiol yna bydd y Cydlynydd Lles yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gofyn am y Rheolwr Tîm Gofal Plant. Os nad yw'r Rheolwr Tîm ar gael, dylai ofyn am y gweithiwr cymdeithasol sydd ar ddyletswydd. Eu cyfrifoldeb nhw fydd cysylltu â'r rhieni yn yr achos yma.
- Bydd y Cydlynydd Lles yn llenwi
- ffurflen gyfeirio ryngasiantaethol a'i anfon i'r Gwasanaeth Cymdeithasol ar frys yn nodi:-
  - y rheswm am y pryder
  - enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni (neu oed) y plentyn
  - enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni (oed) aelodau'r teulu, ynghyd ag unrhyw ffugenwau iv. enw pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant
  - enwau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu, gan gynnwys meddyg teulu'r plentyn
  - unrhyw wybodaeth berthnasol i ddiogelwch staff
- Nid oes hawl gan y Cydlynydd Lles (nag unrhyw un arall) i holi'r plentyn – rhaid gofalu rhag ei orfodi i ailadrodd y datgeliad (mae'r heddlu a'r gweithwyr cymdeithasol wedi eu hyfforddi i wneud hyn).
- Bydd y Cydlynydd Lles yn dweud wrth y plentyn bod rhaid rhoi'r wybodaeth i'r awdurdodau perthnasol ond y bydd yr ysgol yn ei gynnal o fewn gweithdrefnau cynhwysfawr Lles yr ysgol.
- Nid oes hawl gofyn i blentyn ddadwisgo ar unrhyw achlysur.
- Ar ôl hysbysebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol o'r amheuon rhaid i'r Cydlynydd Lles gysylltu â'r Swyddfa Addysg AR UNWAITH a gofyn am y Swyddog a enwir ar gyfer Amddiffyn Plant.
- Rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig, wedi'i farcio'n 'CYFRINACHOL', am bob atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Swyddog Addysg yn union ar ôl cysylltu â hwy dros y ffôn CYN pen 24 awr.

- Os amheuir bod plentyn wedi cael ei gam-drin, gall y Pennaeth ganiatáu i'r plentyn gael ei gyfweld yn yr ysgol gan yr Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ar yr amod fod ef neu'r Cydgysylltydd hefyd yn bresennol. Rhaid i'r Pennaeth neu'r Cydlynydd Lles ddarllen unrhyw ddatganiad a wneir o ganlyniad i gyfweliad a gynhelir yn yr ysgol a'i arwyddo i dystio ei fod yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd.
- Os yw'r plentyn ar fin ymadael â'r ysgol, bydd y cydgysylltydd trwy ymgynghori â'r Rheolwr Tîm neu Weithiwr Cymdeithasol, yn penderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd.

**GWEITHDREFN CADW COFNODION**

- **Rhaid cadw copi o Weithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar safle'r ysgol a sicrhau ei fod nhw'n hygyrch i bob aelod o staff;**
- **Rhaid i bob cofnod ynglŷn ag amddiffyn plant gael ei gadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo yn Swyddfa'r swyddog amddiffyn plant;**
- **Cynnwys y cofnodion:**
    - Unrhyw anafiadau
    - Absenoldebau o'r ysgol
    - Newid mewn ymddygiad ac ymddangosiad
    - Dirywiad neu anghysondebau yn safon y gwaith
    - Colli diddordeb mewn gweithgareddau
    - Sylwadau aelodau eraill o'r staff (sydd efallai'n gweld y plentyn mewn sefyllfaoedd gwahanol)
    - Newidiadau mewn perthynas ag eraill – plant neu oedolion.
    - Ofni mynd at oedolion
    - Unrhyw ymddygiad anaddas i'w oed a allai ddynodi cam-drin rhywiol gan gynnwys manylion o'r gwaith ysgrifennu/lluniau a.a.
- Bydd pryderon yn cael eu rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn, ond ni fydd y cofnodion ar gael heb awdurdod yr USP.
- Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â Diogelu Plant ei chadw am 35 mlynedd. Caiff y dogfennau hynny sy'n ymwneud â Phlant sydd Angen Gofal a Chymorth eu cadw am 10 mlynedd;
- Er mwyn sicrhau bod y broses o symud ysgolion yn ddidrafferth, rhaid i bob dogfen sy'n ymwneud â Diogelu Plant symud gyda'r plentyn. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgol newydd y plentyn yn effro i'w holl anghenion.

**Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn neu gydweithiwr (gan gynnwys aelod o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc yn peri pryder i chi – dywedwch yn syth wrth reolwr llinell y person hwnnw a'r Cydlynydd Lles.** Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu nac yn gwrthod amheuon ynghylch gweithiwr proffesiynol arall.

**CYFRINACHEDD**

- Ni all staff cadw datgeliad o gam-drin yn gyfrinachol a rhaid cyfeirio'r mater i sylw'r Uwch Swyddog Penodedig.
- Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar staff addysgol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant gyda'r asiantaethau statudol dynodedig.
- Wrth wneud atgyfeiriad rhaid cofio y bydd y teulu, yn ystod unrhyw ymchwiliad dilynol, yn cael gwybod mai'r ysgol oedd ei ffynhonnell.
- Dylid ymdrin ag unrhyw ddatgeliad yn sensitif a rhaid helpu'r plentyn i ddeall bod angen i hysbysu'r bobl briodol a all helpu. Dylai staff fod yn effro i'r ffaith y gall unrhyw ddatgeliad fod wedi cymryd cryn ddewrder i'w leisio, ac y gallai fod amrywiaeth o emosiwn cysylltiedig megis euogrwydd, embaras, anffyddlondeb a phoen meddyliol.

- Efallai y bydd angen i staff eraill gael eu rhybuddio am bryderon ynghylch plentyn neu berson ifanc, o bosibl er mwyn monitro'r pryder neu i gasglu rhagor o dystiolaeth cyn cyfeirio, neu i helpu darparu cymorth priodol i blentyn neu berson ifanc unwaith y bydd yr atgyfeiriad wedi cael ei wneud. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu dim ond os yw'r person arall angen gwybod.
- Sicrhau mai dim ond y rheini sydd â chysylltiad proffesiynol e.e. yr Uwch Swyddog Penodedig, sy'n cael mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall, dylen nhw gael eu cadw'n ddiogel dan glo ac ar wahân i brif ffeil y disgybl/myfyriwr.

**HONIADAU YN ERBYN STAFF A/NEU WIRFODDOLWYR**

Mae Ysgol y Strade yn cydnabod y gall disgybl wneud honiad yn erbyn aelod o staff:

- Dylai unrhyw honiad yn erbyn y Pennaeth gael ei gyfeirio'n uniongyrchol at Gadeirydd y
- Llywodraethwyr. Cyfrifoldeb Pennaeth y Corff Llywodraethu yw hi i gyfeirio achosion mewn modd priodol.
- Dylai unrhyw honiadau yn erbyn staff gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Pennaeth, a hynny ar frys. Y
- Pennaeth neu'r Uwch Swyddog Dynodedig a fydd yn cael cyngor oddi wrth Gydlynydd Materion Diogelu/Amddiffyn yr Awdurdod Lleol;
- Caiff camau eu gweithredu i ddiogelu plant yn yr ysgol yn unol â'r cyfarwyddyd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen “Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan”. Bydd y rhain yn cael eu cytuno ar ôl
- ymgynghori â'r Ysgol, yr unigolyn dan sylw, cynrychiolydd undeb llafur yr unigolyn, a'r adran Adnoddau Dynol;
- Rhaid i'r Pennaeth neu'r Uwch Swyddog (neu Gadeirydd y Corff Llywodraethu) wneud atgyfeiriad gan nodi ar frig y ffurflen mai honiad yn erbyn gweithiwr proffesiynol yw e. Os bydd y Pennaeth neu'r Uwch
- Swyddog (neu Gadeirydd y Corff Llywodraethu) yn ansicr ynghylch hyn, fe ddylai fe/hi drafod cynnwys yr honiad gyda'r Cydlynydd Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgolion. Caiff natur, cynnwys a chyd-destun yr honiad eu trafod ynghyd â chytuno ar gamau gweithredu;
- Dylai'r ymholiadau cychwynnol sefydlu:
  - Bod honiad wedi'i wneud
  - Beth yw'r honiad
  - Pryd a ble digwyddodd yr achos (ion) honedig
  - Unrhyw barti arall oedd yn rhan o bethau
  - Unrhyw rai eraill oedd yn bresennol
- Os na fydd yr honiad yn arwain at ragor o weithredu o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, bydd modd i'r Cydlynydd Materion Diogelu/Amddiffyn i'r Ysgolion, ar y cyd â'r adran Adnoddau Dynol roi cyngor ynglŷn ag unrhyw gamau i'w cymryd – os o gwbl – i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd wedi codi;
- Os fydd yr honiad yn arwain at ragor o weithredu o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, caiff cyfarfod strategaeth ei drefnu. Dylai Pennaeth yr Ysgol neu'r Uwch Swyddog Dynodedig fod yn bresennol, neu Gadeirydd y Corff Llywodraethu lle bo'r honiad yn ymwneud â'r Pennaeth. Efallai bydd gofyn i Gadeirydd y Corff Llywodraethu adael y cyfarfod pan gaiff gwybodaeth benodol ei thrafod.)
- Bydd y cyfarfod strategaeth yn cytuno ar ddeilliant/canlyniad ac yn argymell camau gweithredu, unwaith i'r awdurdodau statudol ddod â'u rhan nhw i ben. Hwyrach bydd hyn yn golygu ymdrin â'r mater yn unol â pholisi disgyblu'r ysgol trwy gyfrwng ymchwiliad annibynnol neu Adnoddau Dynol fel y bo angen. Yna, bydd adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei anfon at Gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth er mwyn penderfynu p'un ai fod angen cymryd rhagor o gamau gweithredu
- Ymdrinnir â honiadau ffug neu faleisus yn unol â pholisi disgyblaeth yr ysgol.

- Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ("Cadw Dysgwyr yn Ddiogel"2000) yn nodi bod angen i bob aelod o staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda phlentyn neu tuag at blentyn yn annerbyniol. O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed gael perthynas rywiol â phlentyn o dan 18 oed os yw'r person hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r berthynas yn un gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r plentyn mewn addysg amser llawn a'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

**CEFNOGI'R DISGYBL DAN RISG**

- Cymryd pob amheuaeth a datgeliad o ddifrif
- Enwebu berson cyswllt a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb ac yn bwynt cyswllt canolog. Pan fo aelod o staff yn destun honiad a wneir gan ddisgybl, bydd pobl gyswllt ar wahân yn cael eu henwebu i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.
- Ymateb yn sympathetig i unrhyw gais gan ddisgyblion neu staff am seibiant i ddelio â gofid neu bryder.
- Cynnig manylion llinellau cymorth, cwnsela neu ffynonellau cymorth allanol eraill, gan gydweithio'n llawn ag asiantaethau statudol perthnasol gan gynnwys yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant yn unol â phrotocol Operation Encompass ac Operation Edeavour.

**OPERATION ENCOMPASS**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn Operation Encompass ac Operation Endeavour. Crëwyd Operation Encompass i gefnogi plant sy'n profi cam-drin domestig trwy rannu gwybodaeth yn amserol rhwng yr heddlu ac ysgolion. Diben Operation Encompass yw galluogi cymorth i gael ei roi i blant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Trwy Operation Encompass gall ysgolion helpu plant i ddeall beth sy'n digwydd gartref a sut orau i amddiffyn eu hunain yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae'r wybodaeth y mae ysgol yn ei derbyn hefyd yn eu galluogi i baratoi ar gyfer y plentyn yn yr ysgol a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Diben Operation Endeavour yw diogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny yr adroddwyd eu bod ar goll o'u cartref. Credir bod tua 25% o blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll mewn perygl o niwed difrifol. Mae pryderon penodol ynghylch y cysylltiadau rhwng plant sy'n rhedeg i ffwrdd a'r risgiau o gamfanteisio rhywiol.

Nod Operation Endeavour yw sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig (DSP) wedi'i nodi yn yr ysgolion a'i fod wedi'i hyfforddi'n briodol. Dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r digwyddiadau cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth amserol wedi'i deilwra i blant a phobl ifanc ar ddechrau, ac yn ystod y diwrnod ysgol.

**CHWYTHU'R CHWIBAN**

- Mae cydnabyddiaeth na fydd disgwyl i ddisgyblion godi pryderon mewn amgylchedd lle mae'r staff yn methu â gwneud hynny.
- Os oes pryderon ynghylch agwedd neu weithredoedd cydweithwyr, dylai staff fod yn effro i'w dyletswydd i godi'r materion yma.

**RADICALIAETH**

- Mae canllaw newydd gan Strategaeth Gwrth-frawychiaeth Prevent , a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2015, yn nodi cyfrifoldebau 'awdurdodau penodol', sy'n cynnwys ysgolion '[to have] due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism'. Ystyr 'due regard' yn y cyd-destun hwn yw rhoi cynsail i'r ddyletswydd newydd, gan ystyried cyd-destun yr ysgol a'r gymuned. Wrth gyflawni'r ddyletswydd newydd, mae gofyn i ysgolion ddangos y protocolau clir ar gyfer sicrhau bod siaradwyr gwadd, y mae staff neu'r disgyblion yn eu gwahodd, yn briodol a'u bod yn cael eu goruchwylio'n briodol.
- Bydd yr ysgol yn cyflawni'i dyletswydd Prevent, a bydd yn effro i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i weithredoedd brawychiaeth. Os oes gennych unrhyw bryderon, rhowch wybod i'r Uned Atal Terfysgaeth ac Eithafiaeth https://www.dyfed-powys.police.uk/en/advicesupport/i-am-worried-about-terrorism-activity-radicalisation/i-am-worried-aboutsomeone-being-radicalised/prevent-referral-form/ Yna, penderfynir a ddylid cyfeirio'r achos i'r Panel Sianel.
- Bydd y polisi e-ddiogelwch yn sicrhau nad oes modd i blant gyrchu gwybodaeth anaddas yn yr ysgol.
- Bydd ysgolion yn gwrthwynebu eithafiaeth ac yn hyrwyddo cydlyniad cymunedol drwy ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, corfforol a meddyliol disgyblion, a'u paratoi tuag at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau.
- Caiff siaradwyr gwadd eu hasesu, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, ac fe gân nhw eu goruchwylio'n briodol.
- Bydd ysgolion yn sicrhau bod eu gweithdrefnau diogelu yn briodol ac yn gymesur. Rhaid sicrhau cydbwysedd. Mae'n bwysig caniatáu i ddisgyblion gael y rhyddid i fod yn wahanol, arbrofi, meithrin safbwyntiau cryf a herio syniadau. Mae hefyd yn bwysig diogelu disgyblion rhag pob math o gam-drin a niwed, gan gynnwys ecsploetiaeth, bwlio, meithrin perthynas amhriodol, radicaliaeth, eithafiaeth dreisgar, aflonyddwch, trosedd gasineb a thrais.
- Bydd yr ysgol yn sefydlu mannau diogelu lle bo modd i blant a phobl ifainc ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys brawychiaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg brawychwyr, a dysgu sut i herio'r syniadau yma. Nid bwriad dyletswydd Prevent yw cyfyngu trafodaeth ar y materion yma. Dylai ysgolion, fodd bynnag, fod yn effro i'w dyletswyddau presennol i wahardd egwyddorion gwleidyddol a sicrhau cydbwysed o ran materion gwleidyddol.

**DIOGELU DISGYBLION AR SAFLE'R YSGOL AC ODDI AR Y SAFLE**

- Mae'r ysgol yn cael ei hystyried yn lle diogel i ddysgu a datblygu.
- Mae mynediad i safle'r ysgol yn cael ei fonitro'n llym, a'i adolygu'n unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch ar safleoedd ysgol.
- Bydd ymwelwyr i'r safle ysgol yn destun prosesau Rheoli Risg cadarn a pherthnasol. Bydd hyn yn cynnwys llywodraethwyr sy ddim yn destun gwiriadau' r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Ymweliadau Addysgol y tu allan i safle'r ysgol (gan gynnwys ymweliadau cyfnewid i wledydd tramor)**

- Mae'n cael ei gydnabod y bydd achlysuron pan fydd cyfle i ehangu datblygiad addysgol a chymdeithasol lle bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y lleoliad ysgol arferol.
- Gall gweithgaredd gynnwys elfen breswyl.
- Dylai ysgolion sicrhau bod yr holl oedolion sy'n darparu'r gofal a'r llety wedi cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r ymweliadau yma'n wahanol i deithiau ysgol arferol gan fod y disgyblion yn treulio llai o amser dan oruchwyliaeth uniongyrchol athrawon.
- Pryd bynnag mae taith yn cael ei threfnu, mae'n bwysig bod cyfathrebu agos ynghylch y trefniadau er mwyn galluogi eglurder mewn perthynas â threfniant amser y disgyblion
- Dylai'r Asesiad Risg priodol gael ei gynnal ar y cyd â'r Consortiwm gan ddefnyddio System 'Evolve'.

**Gweithdrefn**

Pan fydd gweithwyr proffesiynol, fel y Swyddog Lles, Cwnselydd, Nyrs yr ysgol, y Seicolegydd Addysg, Gweithiwr Ieuenctid, staff y Tîm Cynnal Ymddygiad, Athrawon Teithiol, Tiwtoriaid Cartref, a.a. sy'n ymwneud â phlant, yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, dylid hysbysu'r Cyd-lynydd Lles **AR UNWAITH** a fydd yn dilyn y camau a nodwyd eisoes.

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustod neu gam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol, yna bydd y staff yn gweithredu yn unol â **'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' a 'Protocol a Dulliau Gweithredu Rhyngasiantaethol yng Nghaerfyrddin er mwyn Asesu Plant mewn Angen a'u teuluoedd'.**

**Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o staff i adrodd y mater wrth Gydgysylltydd Amddiffyn Plant yr Ysgol**

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU**

**CAM 1**: Disgybl yn datgelu Camdriniaeth i athro/awes

**CAM 2**: Athro/awes i wneud nodiadau o'r hyn a ddywedir wrtho/i yn ystod y sgwrs. Dylid eu cadw'n ddiogel – efallai y bydd eu hangen os daw'r mater i achos llys.

**CAM 3**: Athro/awes yn esbonio i'r disgybl beth yn union fydd y camau nesaf gan ei sicrhau ei bod wedi gwneud yn iawn i rannu ei ofidiau a'i broblemau. Dylid sicrhau'r disgybl yn ogystal y bydd yn cael gwybod am bob cam o'r broses. Dylid esbonio mai wrth y Cydlynydd Lles y byddwch yn adrodd yr hanes. Efallai na fydd y disgybl yn adnabod y Cydlynydd Lles ac yn teimlo'n amheus fod rhywun dieithr yn mynd i wybod ei hanes personol mor fuan - mae'n bwysig cysuro'r disgybl drwy ddweud rhywbeth fel "...... mae'n siarad â llawer o blant â phroblemau gwahanol - mae'n delio gyda llawer o sefyllfaoedd gwahanol sy'n achosi gofid i blant".

**CAM 4**: Athro/awes yn dweud wrth y Cydlynydd Lles – bydd y Cydlynydd Lles am wybod cymaint o'r hanes ag sydd gennych. Dylid trosglwyddo copi o'ch nodiadau. Efallai bydd y Cydlynydd Lles am weld y disgybl i ddangos cefnogaeth a chadarnhau i'r disgybl ei fod wedi gwneud y peth iawn. NI FYDD Y PERSON A ENWIR YN GOFYN I'R DISGYBL AIL-ADRODD YR HANES WRTHYNT. Mewn achosion o gam-drin sy'n arwain at achos Llys gall fod yn niweidiol i achos y dioddefwr ei fod wedi ail-adrodd yr hanes nifer o weithiau.

**CAM 5**: Y Cydlynydd Lles yn cysylltu â rhieni/gofalwyr y plentyn os nad yw gwneud hynny yn gosod y plentyn mewn mwy o berygl i sicrhau eu cefnogaeth i drosglwyddo'r mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**CAM 6**: Y Cydlynydd Lles yn dilyn cyfarwyddyd y Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol - yn dweud wrth y disgybl beth fydd y cam nesaf. Mae'n bosibl y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol am siarad â'r disgybl neu ymweld â'r cartref a.y.b. Bydd y Cydlynydd Lles hefyd yn dweud wrth y Pennaeth a'r aelod o'r staff beth sy'n digwydd.

**CAM 7**: Cynnal a chefnogi'r disgybl yn sensitif gan ddilyn strwythur Lles yr ysgol.

## CYSYLLTIAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| **Mrs Heulwen Jones**<br>(Pennaeth Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am Les)<br>Ysgol y Strade, Llanelli | **01554 745100** |
| *Yn absenoldeb y Cydlynydd Lles y personau cyswllt yw:*<br>Mr Daniel Hughes<br>(Dirprwy Cydlynydd Lles a Phennaeth Cynorthwyol)<br>Mr Geoff Evans<br>(Pennaeth) | **01554 745100** |
| Mr Steffan Rogers - Llywodraethwr Penodedig | **01554 745100** |
| Ms Rachel Copp<br>Uwch Ymarferydd Adran Gwasanaethau Plant ac Addysg, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin<br>rcopp@carmarthenshire.gov.uk<br>Caryl Davies<br>Swyddog Diogelu (Ysgolion) Tîm Asesu Llanelli, Tŷ Elwyn, Llanelli<br>carylmdavies@carmarthenshire.gov.uk | **01267 246595**<br>**07880504297**<br><br>**01554 742187**<br>**07785 716992**<br>(symudol) |

## CYFEIRIR PRYDERON AT

| | |
|---|---|
| Tîm Cyfeirio Canolog, Tŷ Elwyn, Llanelli<br>CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk<br><mailto:CRTChildren@carmarthenshire.gov .uk><br>Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Llanelli<br>Tu allan i oriau gwaith | **01554 742322**<br><br><br><br>**0300 333 2222** |
| Heddlu Dyfed Powys (tu allan I oriau gwaith) | **01267 222020** |

## CYFEIRIR PRYDERON AT

| | |
|---|---|
| Llinell Diogelwch Plant yr NSPCC | **0800 800 500** |
| Llinell Gymorth Diogelu plant yr NSPCC | **0808 100 2524** |
| Childline | **0800 1111** |

Pan fydd disgybl sydd ar gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo'r gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith a hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol.

**GWRTH-FWLIO**

Mae ein polisi ar wrth-fwlio wedi’i nodi mewn dogfen ar wahân ac yn cael ei adolygu’n flynyddol gan y corff llywodraethu.

**YMYRIAD CORFFOROL**

Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol wedi’i nodi mewn dogfen ar wahân ac yn cael ei adolygu’n flynyddol gan y corff llywodraethu. Mae’n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru Ymyrraeth Ddiogel ac Effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau.

**PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Rydym yn cydnabod yn ystadegol mai plant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd fwyaf mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, megis anabledd dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau neu broblem emosiynol ac ymddygiadol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

| | |
|---|---|
| Adolygwyd a Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol: | |
| Llofnod y Cadeirydd: | |

**ATODIAD 1**

**Fe dynnodd dogfen Llywodraeth Cymru (2015) "Cadw Disgyblion yn Ddiogel" sylw at faterion penodol mewn perthynas â Diogelu Disgyblion.**

1. **Cam-drin gan blant a phobl ifainc, gan gynnwys cam-drin rhywiol (ymddygiad rhywiol niweidiol)**
   Gall plant fod yn fygythiad corfforol neu rywiol i blant eraill. Weithiau gall perthnasau rhwng plant fod yn gymhellol, yn amhriodol neu'n gamfanteisiol.

2. **Plant sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid**
   Dylai'r plant a'r bobl ifainc yma gael eu hystyried yn blant yn gyntaf a mewnfudwyr yn ail. Gall plant ddod i mewn i'r wlad yn rhan o deulu, gyda gwarcheidwad sy'n oedolyn, neu hyd yn oed ar eu pennau eu hunain, gan eu gwneud yn fwy agored i niwed. Efallai eu bod wedi gweld neu brofi digwyddiadau trawmatig, wedi dioddef colled neu wynebu rhwystrau iaith neu gyfathrebu.

3. **Plant o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**
   Mae gwahaniaethau diwylliannol wrth fagu plant ond dydy 'diwylliant' ddim yn esgus dros niweidio plentyn. Mae angen bod yn glir ynghylch gwahaniaethau rhwng arferion diwylliannol penodol nad ydyn nhw'n niweidiol, ac achosion o gam-drin a all fod yn gysylltiedig â chredoau diwylliannol neu grefyddol.

4. **Bwlio**
   Mae gan bob person yr hawl i ddysgu, heb ofni cael ei fwlio, pa ffurf bynnag y gall y bwlio'i chymryd. Mae seiber-fwlio ar gynnydd ac yn cynnwys negeseuon testun, sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon negeseuon e-bost maleisus. Mae'n bwysig bod ysgolion â diwylliant lle mae pawb yn ddiogel ac yn cael ei gynnwys, a bod yr ysgol yn ymyrryd ar unwaith i roi terfyn ar fwlio.

5. **Lluniau o gam-drin plant a'r rhyngrwyd**
   Mae gwybod â phwy mae plant mewn cysylltiad ar y rhyngrwyd yn bwysig. Mewn rhai achosion mae camdrinwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd i 'baratoi' plant ar gyfer perthnasau amhriodol, a allai gynnwys eu perswadio i anfon delweddau neu fideos amhriodol ohonyn nhw'u hunain. Yn rhan o'u swyddogaeth i atal camdriniaeth ac esgeulustod, dylai ysgolion ystyried gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel yn yr ysgol ac yn y cartref

6. **E-ddiogelwch**
   Dylai ysgolion wneud defnydd llawn o'r rhyngrwyd a gwybod sut i'w defnyddio'n ddiogel.

7. **Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â dewiniaeth neu gredoau ysbrydol eraill**
   Mae credu mewn meddiant a dewiniaeth yn digwydd mewn llawer o wledydd, diwylliannau a chrefyddau gwahanol ond does dim cyfiawnhad fyth dros niweidio plentyn.

8. **Plant nad ydyn nhw'n byw gartref**
   Mae plant yn cael eu hystyried yn rhai sy'n byw oddi cartref os ydyn nhw:
   Plant maeth, mewn gofal preswyl, unedau diogel, ysgolion preswyl neu lety annibynnol. Weithiau mae'r llety yma dros dro, a gall y cyfnod yma fod yn ofidus a'u gwneud nhw'n agored i niwed.

**9. *Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant***

Dydy plant ddim yn cael eu cam-drin yn rhywiol o'u gwirfodd a fydden nhw ddim yn caniatáu i rywun eu cam-drin. Maen nhw'n cael eu gorfodi neu'u cymell. Mae CSE yn cynnwys:

- cyfnewid gweithgarwch rhywiol am arian;
- cynhyrchu delweddau anweddus;
- paratoi/hudo;
- masnachu mewn plant.

Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifainc yn rhan bwysig o'r broses o'u haddysgu i aros yn ddiogel ac i ddweud wrth oedolyn arall.

**10. *Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)***

**Mae'r Protocol Cymru Gyfan ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnig cyngor ac** arweiniad ar ddiogelu merched rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddfa Gartref wedi llunio **canllawiau amlasiantaeth** sy'n amlinellu'r camau y dylai gweithwyr proffesiynol yn y rheng flaen, megis athrawon, gweithwyr iechyd, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, eu cymryd er mwyn diogelu merched a menywod a chynnig y cymorth priodol iddyn nhw.

Yn y DU, mae pob math o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod5 yn anghyfreithlon o dan **Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.** Mae'n drosedd i wneud y canlynol (ni waeth beth fo cenedligrwydd na statws preswylio'r merched):

- cyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn y DU
- helpu i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn y DU
- helpu merch i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod arni hi ei hun yn y DU
- (tra ydych chi yn y DU) helpu rhywun sydd ddim yn y DU i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ar rywun sy'n dod o'r DU neu'n byw yno'n barhaol, ac i wneud hynny y tu allan i'r DU.Yn ogystal â hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n drosedd i unrhyw un o'r DU, neu unrhyw un sy'n byw yma'n barhaol, wneud y canlynol:
    - cyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod dramor
    - helpu rhywun o'r DU, neu rywun sy'n byw yma'n barhaol, i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod dramor, mae hyn yn cynnwys
        - mynd â merch dramor er mwyn goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
        - (o'r tu allan i'r DU) helpu i rywun sydd ddim yn dod o'r DU i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ar ferch neu fenyw sy'n dod o'r DU neu'n byw yma'n barhaol
        - -mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor er mwyn goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
        - helpu merch i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod arni hi ei hun y tu allan i'r DU, hyd yn oed mewn gwledydd ble mae hynny'n gyfreithlon.

Os bydd unrhyw wybodaeth neu bryderon sy'n awgrymu fod plentyn mewn perygl o odde Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, neu ei bod wedi'i goddef eisoes, dylai arwain yn syth at atgyfeiriad diogelu plentyn.

Os oes gyda chi bryderon fod merch neu fenyw ifanc yn cael ei chludo dramor er mwyn goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, cysylltwch â'r **Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae FORWARD** yn sefydliad yn y DU sy'n cynnig cymorth, gwasanaeth cwnsela a man diogel i ferched a menywod fel bod modd iddyn nhw siarad am eu profiadau. Yn ogystal â hynny, mae modd iddyn nhw addysgu teuluoedd, a gweithio gyda nhw, er mwyn atal Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod rhag digwydd i unrhyw ferched eraill sy'n rhan o'r teulu.

Mae gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) linell gymorth 24 awr ar gyfer unrhyw un sy'n bryderus fod plentyn am oddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, neu wedi goddef hynny. Ffoniwch 0800 028 3550 neu e-bostiwch ***fgmhelp@nspcc.org.uk.***

Cam-drin yw masnachu mewn plant a gall olygu:

1. cam-fanteisio rhywiol
2. gwasanaeth domestig
3. llafur cam-fanteisiol
4. gweithgaredd troseddol
5. priodas dan orfod

**ATODIAD 2**

**POLISI YMWELWYR A SIARADWYR ALLANOL**

**Cyflwyniad**

Mae gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles disgyblion a staff ar bob adeg. Mae'r ddyletswydd gofal yma'n ymgorffori'r ddyletswydd i ddiogelu disgyblion rhag unrhyw niwed, camdriniaeth neu niwsans. Mae'n gyfrifoldeb ar y corff llywodraethu neu uwch arweinwyr i sicrhau na chaiff y ddyletswydd yma'i chyfaddawdu.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw gofalu am ddisgyblion ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol gyffredin, yn ystod gweithgareddau allgyrsiol ac ar weithgareddau oddi ar y safle y mae'r ysgolion yn eu trefnu a'u goruchwylio.

Y Pennaeth sy’n gyfrifol am weithredu, cydlynu ac adolygu'r polisi yma. Bydd ef/hi hefyd yn gyfrifol am gysylltu â'r Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig fel sy'n briodol.

**Mae Ysgol y Strade yn disgwyl bod y grwpiau canlynol yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau:**

- Holl staff addysgu a staff eraill mae'r ysgol yn eu cyflogi;
- Holl ymwelwyr allanol sy'n mynd ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol neu ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol;
- Holl lywodraethwyr;
- Holl rieni a gwirfoddolwyr;
- Holl ddisgyblion;
- Staff addysg berthnasol eraill (staff ymgynghori'r Awdurdod Lleol, arolygwyr)
- Staff adeiladu a chynnal a chadw a holl gontractwyr annibynnol eraill sy'n ymweld â safle'r ysgol; a
- Contractwyr annibynnol sy'n cludo disgyblion ar fysiau mini neu mewn tacsis.

**Protocol a Gweithdrefnau Ymwelwyr i'r Ysgol**

Cyn estyn gwahoddiad i ymwelwyr i'r ysgol, rhaid rhoi gwybod i'r ysgol, y Pennaeth neu aelod o'r Tîm Arwain. Rhaid esbonio perthnasedd a phwrpas yr ymweliad a dyddiad ac amser bwriadedig yr ymweliad. Rhaid i aelod o'r Tîm Arwain roi caniatâd cyn gofyn i ymwelwyr ddod i'r ysgol. Bydd y Pennaeth yn rhoi cyngor ar lefel yr oruchwyliaeth a'r archwiliadau cyn ymweliad sydd eu hangen.

- Yn gyntaf, rhaid i'r ymwelydd fynd i'r dderbynfa. Dyw ymwelwyr ddim yn cael mynd i mewn i'r ysgol drwy unrhyw fynedfa arall.
- Wrth y dderbynfa, rhaid i'r ymwelydd nodi diben ei ymweliad, a phwy sy wedi estyn gwahoddiad iddo. Bydd yr aelod o staff sy'n derbyn yr ymwelydd yn cadarnhau hyn.
- Bydd gofyn i bob ymwelydd lofnodi llyfr cofnodi. Caiff ei gadw wrth y dderbynfa bob amser.
- Bydd gofyn i ymwelwyr, gan gynnwys contractwyr, wisgo bathodyn adnabod. Rhaid rhoi gwybod iddyn nhw am weithdrefnau gwacáu.
- Sicrhewch fod ymwelwyr yn cydymffurfio â'r polisi dim ysmygu.
- Caiff ymwelwyr eu hebrwng i'r person cyswllt NEU bydd y person cyswllt yn dod i'r dderbynfa. Bydd y person cyswllt yn gyfrifol am yr ymwelydd tra'i fod ar y safle. Arfer gorau yw i ymwelwyr gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er nid polisi cyfredol yr Awdurdod Lleol yw gwneud hyn.

Wrth adael yr Ysgol dylai ymwelwyr adael yr ysgol drwy'r dderbynfa a:

- Nodi'u hamser gadael yn y llyfr cofnodi ger eu hamser cyrraedd.
- Dychwelyd bathodyn adnabod i'r dderbynfa.
- Dylai aelod o staff eu hebrwng i faes parcio'r staff (gan sicrhau nad ydyn nhw'n dod yn ôl i safle'r ysgol - sy'n torri gweithdrefnau diogelwch).

Ymwelwyr Anhysbys/Heb Wahoddiad i'r Ysgol

- Dylid herio (mewn modd cyfeillgar) unrhyw ymwelydd sy ddim yn gwisgo bathodyn adnabod i holi pwy ydyw a'r hyn mae'n ei wneud ar safle'r ysgol.
- Dylid yna'i hebrwng i'r dderbynfa er mwyn iddo dorri'i enw yn y llyfr cofnodi a chael bathodyn adnabod.
- Bydd y gweithdrefnau o dan 'Ymwelwyr i'r Ysgol' yna'n berthnasol
- Os bydd yr ymwelydd yn gwrthod cydymffurfio, dylid gofyn iddo adael y safle ar unwaith a dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth (neu'r Uwch Arweinydd) heb oedi.
- Bydd y Pennaeth neu'r Uwch Arweinydd yn ystyried y sefyllfa ac yn penderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r heddlu.
- Os yw'r ymwelydd yn ymddwyn mewn modd ymosodol neu dreisgar, gofynnwch iddo adael y safle ar unwaith. Rhowch rybudd iddo - os na fydd yn gadael safle'r ysgol, byddwch chi'n ffonio'r heddlu.

**Datblygiad Staff**

- Yn rhan o'u sesiwn ymsefydlu, bydd staff newydd yn cael gwybod am y polisi ar gyfer ymwelwyr allanol a byddwn ni'n gofyn iddyn nhw gydymffurfio â'r gweithdrefnau bob amser.

**Rhestr o Ymwelwyr Cymeradwy**

- Bydd gan yr ysgol restr o ymwelwyr cymeradwy ar gyfer yr ymwelwyr hynny sy'n ymweld â safle'r ysgol yn rheolaidd i wneud gwaith yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys contractwyr a staff cyflenwi a theithiol. Er mwyn ychwanegu ei enw i'r rhestr, rhaid i'r ymwelydd ddangos tystiolaeth ei fod:

  i. Wedi cael gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod copi ohono ar Gofnod Canolog yr Ysgol
  ii. Wedi cael gwiriad gwahardd plant y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
  iii. RHAID i ymwelwyr sydd ar y rhestr gymeradwy ddilyn yr un gweithdrefnau wrth fynd i mewn i'r ysgol (h.y. mynd at y dderbynfa a llenwi'r llyfr cofnodi).
- Bydd copi o'r rhestr o ymwelwyr cymeradwy yn cael ei chadw wrth y dderbynfa bob amser.

<u>**Siaradwyr Allanol**</u>

- "*Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, corfforol a meddyliol disgyblion, a'u paratoi tuag at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau.*
- *Rhaid iddyn nhw hefyd hyrwyddo cydlyniad cymunedol."*

Mae Ysgol y Strade yn cydnabod bod ymwelwyr a sefydliadau allanol yn cyfrannu'n fawr a'u bod yn hynod werthfawr.

**Daeth canllaw newydd gan Straetegaeth Gwrthfrawychiaeth *Prevent* i rym ar 1 Gorffennaf 2015. Mae'n nodi cyfrifoldebau awdurdodau penodol, gan gynnwys ysgolion i fod yn effro 'to the need to prevent people from being drawn into terrorism'.** ***"****Wrth fynd ati i gyflawni'r ddyletswydd newydd, mae gofyn i ysgolion gyflwyno protocolau clir i sicrhau bod siaradwyr - sy'n naill ai'n cael eu gwahodd gan staff neu blant - yn addas ac yn cael eu goruchwylio'n briodol."*

*"Dylai ysgolion fod yn fannau diogel, lle bo modd i blant a phobl ifainc ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys brawychiaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg brawychwyr, a dysgu sut i herio'r syniadau yma. Nid bwriad dyletswydd Prevent yw cyfyngu trafodaeth ar y materion yma. Dylai ysgolion, fodd bynnag, fod yn effro i'w dyletswyddau cyfredol i wahardd trwytho gwleidyddol a sicrhau y caiff materion gwleidyddol eu cyflwyno mewn modd cytbwys. Caiff y dyletswyddau yma'u gosod ar ysgolion a gynhelir yn unol ag adrannau 406 a 407 o Ddeddf Addysg 1996."*

Bydd raid i ysgolion benderfynu p'un ai yw siaradwyr gwadd yn briodol neu'n addas. Ar brydiau, mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion archwilio cefndir neu gynnal gwiriadau. Os yw ysgolion yn ei chael hi'n anodd, dylen nhw gysylltu â Rheolwr Cynhwysiant yr ALl am gyngor a chymorth.

**Arweiniad penodol ar gyfer aelodau o staff sy'n trefnu ymweliadau gan asiantaethau a siaradwyr allanol.**

Dylai holl aelodau o staff ysgol sy'n trefnu ymweliadau gan asiantaethau a siaradwyr allanol ddilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Cyn yr ymweliad, rhaid i'r trefnydd drafod â'r ymwelwyd sut bydd eu sesiwn yn gwella profiad dysgu'r disgyblion.
- Sicrhau bod deilliannau dysgu'r ymwelydd/asiantaeth allanol yn ategu rhaglenni neu gynlluniau gwaith yr ysgol, a'u bod yn unol â pholisïau'r ysgol.
- Byddwch yn hyderus bod gan yr ymwelydd/asiantaeth allanol yr arbenigedd angenrheidiol yn y
- pwnc maen nhw'n ei gyflwyno, a bod ganddo/ganddi'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno sesiynau sy'n briodol i'r oedran ac yn gywir o ran eu ffeithiau.
- Trafodwch a chytuno ar y nodau/deilliannau dysgu dymunol, a'r ffiniau proffesiynol - mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb sy ganddo/ganddi i ddisgyblu'r dosbarth.
- Rhoi'r holl wybodaeth i bob ymwelydd/asiantaeth allanol i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys. Mae'n bosibl bod hyn yn cynnwys oedran a chymhareb, cefndir, ethnigrwydd a diwylliant disgyblion, yn ogystal ag anghenion addysgol arbennig (os yw'n berthnasol).
- Rhowch ddolen gyswllt i bob ymwelydd.
- Sicrhau bod y gweithgaredd yn diwallu canllawiau Iechyd a Diogelwch. Cynnal asesiad risg o'r gweithgaredd/sesiwn.
- Rhaid i staff sicrhau bod ymwelwyr yn effro i weithdrefnau diogelu'r ysgol a bod modd iddyn nhw weld polisïau fel Amddiffyn a Diogelu Plant ac Asesiadau Risg.
- Rhaid i holl staff roi gwybod i'r staff ysgol berthnasol o'r ymweliad bwriadedig a chylch gwaith yr ymwelydd, e.e. pennaeth, staff y swyddfa.
- Sicrhau bod yr aelodau o staff perthnasol, e.e. athro/athrawes dosbarth, yn bresennol yn ystod y sesiwn am ei fod ef/ei bod hi'n gyfrifol am ddisgyblu, monitro a gwerthuso'r dosbarth.
- Sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.

Golyga hyn fod rhaid i siaradwyr ac ymwelwyr sicrhau nad yw'u safbwyntiau neu'u syniadau, na'r ffordd maen nhw'n eu mynegi, yn tresmasu ar hawliau eraill neu'n camwahaniaethu yn eu herbyn nhw. Ddylai'r hyn maen nhw'n ei ddweud, a'r ffordd maen nhw'n ei ddweud, ddim torri'r gyfraith, bygwth trefn gyhoeddus, bygwth iechyd a diogelwch unigolion, annog eraill i dorri'r gyfraith, neu fod yn groes i hawliau sifil a dynol unigolion. **Mae'n drosedd annog casineb yn erbyn pobl eraill ar sail crefydd neu hil.**

Bydd ymwelwyr yn cael gwybod am eu cyfrifoldeb i ufuddhau i'r gyfraith, a pholisïau amrywiol yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Peidio â mynd yn groes i werthoedd democrataidd sylfaenol Prydain nai'i threfnau llywodraethu, rhyddid unigolion na pharch a goddefgarwch ar gyfer y rheiny sydd â ffydd neu gredoau gwahanol;
- Peidio ag annog casineb, trais neu alw am dorri'r gyfraith;
- Peidio ag annog, mawrygu neu hyrwyddo gweithredoedd brawychiaeth, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n annog gweithredoedd o'r fath; a
- Peidio â lledaenu eithafiaeth, radicaliaeth, casineb nac anoddefgarwch yn y gymuned ysgol, ac felly cyfrannu at aflonyddu ar gytgord cymdeithasol a chymunedol.

Os bydd siaradwyr neu ymwelydd allanol yn mynd yn groes i'r canllaw yma, bydd yr ysgol yn cadw'r hawl i ddod ag achlysur i ben a gwahardd y siaradwr neu'r ymwelydd o'r safle. ***Yr ysgol sy'n penderfynu caniatáu neu wrthod i'r unigolyn siarad.***

**<u>Cyngor yr Awdurdod Lleol</u>**

Bydd yr Ysgol yn cysylltu â Rheolwr Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol os oes gyda nhw bryderon yn ymwneud â siaradwyr allanol mewn da bryd i gynnal gwiriadau.

Yn sgil digwyddiadau diweddaraf, mae proses **Channel** wedi'i sefydlu yn rhan o elfen **'Prevent' o Strategaeth Gwrthfrawychiaeth 'Contest' Llywodraeth y DU.** Mae proses 'Channel' yn cynnig y mecanwaith i:

i. Adnabod unigolion a grwpiau sy mewn perygl o gael eu denu i weithredoedd brawychiaeth.
ii. Asesu natur a gradd y risg a bregus rwydd.
iii. Cyfeirio achosion i banel amlasiantaeth er mwyn datblygu'r pecyn cymorth mwyaf priodol i ddiogelu'r rheiny sy mewn perygl.

**Serch hynny, os yw aelod o staff o'r farn bod plentyn neu blant mewn perygl uniongyrchol, rhaid ffonio'r heddlu ar 999. Os ydych chi o'r farn bod plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol, rhaid llenwi ffurflen Amlasiantaeth yn unol â'r broses a amlinellir ym Mholisi Diogelu Plant Ysgolion.**

*ATODIAD 5*

**POLISI ATAL RADICALEIDDIO TREISGAR/EITHAFIAETH**

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o dan Adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, yn ogystal â'r Arweiniad ar Ddyletswydd o ran Atal atodol o dan Adran 29 o'r Ddeddf, er mwyn diogelu disgyblion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Mewn cyd-destun addysg ffurfiol, mae'r amcanion Dyletswydd o ran Atal yn berthnasol o ran:

- Prosesau a phrotocolau diogelu a lles.
- Annog parch a gwydnwch drwy werthoedd Prydeinig/craidd cyffredin sydd wedi'u hatgyfnerthu gan heriau, dadleuon, beirniadaeth a mannau diogel.

**Mae'r ysgol yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:**

- Darparu man diogel i ddisgyblion siarad am unrhyw broblemau sy'n peri pryder iddyn nhw, gan gynnwys pynciau sensitif fel terfysgaeth a syniadau eithafol.
- Adnabod unigolion a allai gael eu denu gan derfysgaeth neu eithafiaeth sydd naill ai'n dreisgar neu ddim yn dreisgar.
- Gwybod sut i gyflawni atgyfeiriad Channel a sut i chwilio am gymorth ar gyfer y plentyn/unigolyn ifanc.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael yr hyfforddiant priodol, sef eu bod nhw o leiaf yn cwblhau hyfforddiant PREVENT ar-lein.
- Sicrhau bod staff yn meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o gael eu denu gan eithafiaeth dreisgar a herio syniadau eithafol.
- Diogelu plant rhag cael gafael ar ddeunydd terfysgol ac eithafol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhoi prosesau hidlo priodol ar waith, a gaiff eu rheoli gan Gyngor Sir Gaerfyrddin.
- Sicrhau eich bod wedi cwblhau 'Pecyn hunanasesu 2016 - Gwrthsafiad a pharch - datblygu cydlyniant cymunedol' gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr asesiad yma'n darparu dadansoddiad o anghenion yr ysgol gyfan ac yn amlygu arfer gorau.
- Rhannu atodiad y polisi yma gyda'r Corff Llywodraethu fel bod modd i'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol am ddiogelu plant lenwi'r pecyn hunanasesu gydag Arweinydd Diogelu Penodedig yr ysgol.

**Diffiniadau**

- Caiff 'Eithafiaeth' ei ddiffinio fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol  Prydain, gan gynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Yn ogystal â hynny, mae ein diffiniad o eithafiaeth yn cynnwys galw am ladd aelodau o'n lluoedd arfog, boed hynny yn y DU neu dramor.
- Ystyr 'eithafiaeth sydd ddim yn dreisgar' yw'r eithafiaeth sydd wedi'i diffinio uchod, ond sydd ddim yn cynnwys trais.
- Yng nghyd-destun y ddogfen yma, ystyr 'Atal' yw lleihau neu gael gwared ar y risg y bydd unigolion yn dod yn rhan o weithgarwch derfysgol. Mae'r gwaith o 'Atal' yn cynnwys adnabod ac atgyfeirio'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu denu gan derfysgaeth at yr ymyriadau priodol. Nod yr ymyriadau yma yw atal pobl agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio.
- Ystyr 'radicaleiddio' yw'r broses pan mae unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol.
- Ystyr 'Radicaleiddio Dwyochrog' neu 'eithafiaeth gronnol' yr atgyfnerthu cylch parhaus o feio, meithrin cysylltiadau rhwng mathau o eithafiaeth neu achosion pan fydd tensiwn yn adeiladu.

Os bydd pryderon ynglŷn â diogelu plant, rhaid dilyn yr un gweithdrefnau diogelu plant arferol, a cheisio cymorth y garfan Ddiogelu, yn ogystal â'r Garfan Prevent.

**PARTNERIAETH AML-ASIANTAETH CHANNEL**

**Atgyfeirio at Channel:**

Mae partneriaeth amlasiantaeth Channel ym mop ardal awdurdod lleol, a gaiff ei chadeirio gan yr Awdurdod Lleol. Nodau'r bartneriaeth yma yw:

- Nodi unigolion sydd mewn perygl o fod yn agored i eithafiaeth dreisgar.
- Asesu pa mor agored i eithafiaeth ydy'r unigolyn.
- Llunio'r cynllun cymorth mwyaf priodol ar gyfer yr unigolion dan sylw.

Cyfeiriad e-bost man cychwyn atgyfeirio at Channel (Ardal Heddlu Dyfed Powys): contactcentre@**dyfed-powys**.pnn.**police**.uk

Hwn fydd y pwynt mynediad ar gyfer pob achos a gaiff ei atgyfeirio at y garfan Prevent.

Rydyn ni'n argymell i chi gysylltu ag aelod o'r Garfan Diogelwch Cymuned neu Garfan Prevent yr Heddlu cyn cyflwyno atgyfeiriad.

**Atodiad 6**

**DULL ADDYSG GYFAN MEWN PERTHYNAS Â THRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (VAWSASV) YNG NGHYMRU - CANLLAW ARFER DA (WEDI'I LUNIO GAN LYWODRAETH CYMRU)**

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifainc. Gall effeithio ar eu diogelwch, iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol, eu perthnasoedd gyda'r teulu a chyfoedion, a'u gallu i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a pharchus yn y dyfodol.

Cydnabyddwn y gall fod pobl ifainc a staff yn yr ysgol yn cael eu cam-drin (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol) yn ogystal ag unigolion sy'n eu cyflawni.
Rydym yn derbyn y ein bod yn gyfrifol fel ysgol i sicrhau bod ein disgyblion a'n staff yn ddiogel ac yn iach.

***Beth yw dull addysg ysgol gyfan?***

Mae dull ysgol gyfan yn golygu cynnal gwaith mewn gwahanol feysydd ar draws yr ysgol - gan gynnwys o fewn y cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol, hyfforddiant athrawon ac ennyn diddordeb y gymuned. Mae hefyd yn golygu gwneud hyn mewn ffordd gyd gysylltiedig sy'n cysylltu i weledigaeth gyffredinol neu at ddiben ar gyfer eich gwaith dinasyddiaeth fyd-eang.
Nod y canllaw arfer da yw:

- Nodi elfennau allweddol dull addysg gyfan o ran trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol;
- Darparu canllaw ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar sut i ddatblygu a sefydlu dull addysg gyfan, a'i darparu'n llwyddiannus, er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch rhwng y rhywiau a herio trais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol; a
- Nodi enghreifftiau o arferion effeithiol sy'n cael eu darparu yng Nghymru a'r DU.

Mae'r canllaw yn seiliedig ar naw elfen allweddol o'r Dull Addysg Gyfan, gyda phob adran yn ystyried y mathau o weithgareddau y byddai modd eu cymryd o dan bob elfen. Mae'r canllaw yn awgrymu amrywiaeth o syniadau ymarferol ac mae enghreifftiau o astudiaethau achos drwyddi draw. Er mwyn sicrhau dull 'addysg gyfan', mae rhaid bod yr holl elfennau allweddol yn cael eu gweithredu:-

- Mae plant a phobl ifainc yn dysgu am VAWDASV
- Mae'r staff yn dysgu am VAWDASV
- Mae rhieni, y sawl sy'n rhoi gofal a'r teulu yn dysgu am VAWDASV
- Mae systemau monitro a gwerthuso ar waith i fesur effaith y gwaith yma
- Mae mesurau ar waith i gefnogi pobl sy'n dioddef mathau o VAWDASV
- Mae plant a phobl ifainc, staff a rhieni/y sawl sy'n rhoi gofal yn cymryd rhan weithredol i atal
- VAWDASV
- Cymryd camau i atal VAWDASV yn y gymuned ehangach • Cydweithio ag arbenigwyr perthnasol lleol
- Sefydlu rhaglen atal gynhwysfawr.

**ATODIAD 7**

**CANLLAWIAU AR DROSGLWYDDO DOGFENNAU DIOGELU PLANT**

Er mwyn sicrhau bod y broses o symud ysgolion yn ddidrafferth, rhaid i bob dogfen sy'n ymwneud â Diogelu Plant symud gyda'r plentyn. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgol newydd y plentyn yn effro i'w holl anghenion.

*'Where children leave the establishment ensure the child protection [safeguarding] file is copied for the new establishment as soon as possible but transferred separately from the main pupil file, ensuring a secure transit and confirmation of receipt should be obtained.' (Atodiad B: Keeping Children Safe in Education – Statutory Guidance for Schools and Colleges*
*- Gorffennaf 2015)*

**Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau statudol o ran Rhan 7 (diogelu) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan fod pawb yn gyfrifol am gadw plant yn ddiogel. Rhaid i awdurdod lleol roi trefniadau ar waith sy'n annog y swyddogion perthnasol i gydweithio, gan gynnwys y swyddogion hynny ym maes addysg. Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2015) yn nodi bod *pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant a'u cadw rhag cael niwed. Mae gan bawb sy'n cael unrhyw fath o gyswllt â phlant neu deuluoedd ran i'w chwarae.*

Cynhaliodd Brandon *et al* (2013) astudiaeth o'r enw 'New Learning from Serious Case Reviews: a two year report 2009-11'. Nododd yr astudiaeth yma fod argaeledd gwybodaeth gyflawn, gywir a hygyrch yn thema gyson gan bob asiantaeth. Roedd yr angen i rannu gwybodaeth yn well o fewn asiantaethau, a rhyngddyn nhw, yn rhan hanfodol o'r argymhellion a gafodd eu gwneud.'

Dydy Deddf diogelu data 2018 ddim yn atal pobl rhag rhannu gwybodaeth, ond mae'n darparu fframwaith er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol am bobl byw ei rhannu mewn modd priodol.

Mae cadw cofnodion manwl yn rhan hanfodol o arfer da ym maes diogelu plant. Dylai pob aelod o staff wybod fod angen iddyn nhw rannu eu pryderon ynglŷn â phlentyn neu blant gyda'r ysgol neu'r lleoliad addysg. Mae'r Unigolyn Diogelu Penodedig (DSP) yn gyfrifol am gofnodion o'r fath, yn ogystal â'r ffeil diogelu plant. Mae cyfnodau pontio yn gyfle i ni gynllunio a rhannu gwybodaeth mewn modd gofalus a rhagweithiol. Os caiff hyn ei wneud yn iawn, yna bydd modd sicrhau bod disgyblion yn symud rhwng ysgolion yn llwyddiannus ar unrhyw adeg.

**Beth a ddylai fod mewn Ffeil Diogelu Plentyn?**

Ystyr Ffeil Diogelu Plentyn yw'r cofnod mae'r USP yn ei gadw o unrhyw bryderon ynglŷn â lles y plentyn. Dylai'r pryderon yma nodi ffeithiau yn unig, nid barn. Efallai mai dim ond un pryder sydd wedi'i nodi yn y ffeil, neu efallai y bydd hi'n ffeil fawr sy'n nodi hanes sylweddol. Mae'n gofnod o bob pryder sy'n ymwneud â diogelu. Ni waeth beth fo maint y ffeil, rhaid ei hanfon at y lleoliad addysg newydd yn ei chyfanrwydd.

Y USP sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ffeil yn cael ei diweddaru a bod llinell amser o bob achos yn cael ei chofnodi. Ystyr llinell amser yw trosolwg o holl bryderon yr ysgol a manylion am ddigwyddiadau arwyddocaol ym mywyd y plentyn. Ni ddylai gynnwys manylion, dim ond brawddeg sy'n amlinellu'r hyn a ddigwyddodd, pwy oedd ynghlwm â'r digwyddiad a'r hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i'r digwyddiad.

Mae modd i gynnwys y ffeil gynnwys y canlynol –

- Manylion sylfaenol
- Llinell Amser
- Ffurflenni Achos Pryder
- Atgyfeiriadau at Ymatebwyr Cyntaf
- Deilliannau'r atgyfeiriadau a gafodd eu gwneud
- Gwybodaeth am gam-drin domestig, e.e. hysbysiadau gan yr heddlu
- Gwybodaeth MARAC
- Cofnodion Cynhadledd Diogelu Plant/cyfraniad yr ysgol/cofnodion y grŵp craidd
- Unrhyw asesiadau CYPS
- Fframweithiau asesu perthnasol ar gyfer y broses MIA a TAF (bydd angen caniatâd rhieni'r plentyn)
- Cofnodion cyfarfodydd amlasiantaeth
- Os caiff adroddiadau gan drydydd parti eu cynnwys yn y cofnodion, dylai awdur yr adroddiadau fod yn effro i'r ffaith y caiff yr adroddiad ei gynnwys yn y ffeil ddiogelu plentyn.

**Sut i drosglwyddo'r Ffeil Diogelu Plentyn**

Pan fydd plentyn yn symud i ysgol arall, dylai'r Swyddog Diogelu gysylltu â'r ysgol newydd o fewn pum diwrnod ysgol i roi gwybod iddi am y ffeil diogelu plentyn. Dylai'r ysgol newydd ofyn i hen ysgol y plentyn a oes ganddo ffeil diogelu plentyn ac a oes modd ei throsglwyddo fel mater o drefn. Rhaid i'r ffeil gael ei throsglwyddo wyneb yn wyneb neu gael ei hanfon drwy'r post ar yr amod fod hynt y ffeil yn cael ei chofnodi. Dylai'r ffeil gael ei hanfon o fewn pum diwrnod ysgol, ac ar wahân i brif ffeil y plentyn. Rhaid gofalu bod yr holl wybodaeth yn aros yn gyfrinachol a bod y ffeil yn cael ei throsglwyddo yn y modd mwyaf diogel â phosibl. Peidiwch byth â gofyn i rieni drosglwyddo ffeiliau o'r fath.
Dylai ysgolion gadw copi o'r ffeil eu hunain, gan y bydd modd ei defnyddio fel tystiolaeth o'r hyn roedd yr ysgol yn ei wybod a'r camau a gafodd eu cymryd i ddiogelu'r plentyn a hybu ei les.

Ni waeth sut y caiff y ffeil diogelu plentyn ei throsglwyddo, rhaid cadw tystiolaeth ysgrifenedig o'r broses drosglwyddo (ffurflen neu ddarn o bapur sydd wedi'i lofnodi gan aelod o staff yr ysgol newydd). Dylai'r hen ysgol gadw'r dystiolaeth yma.

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Os caiff y plentyn ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn derbyn addysg yn y cartref, rhaid i'r ysgol drosglwyddo ffeil diogelu'r plentyn i swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref (Rheolwr Cynhwysiant) yr awdurdod lleol, gan gadw tystiolaeth yn unol â'r manylion uchod.

**Ffurflen Plant sy'n Colli Addysg**

Os bydd plentyn sydd â Chofnod Diogelu yn gadael yr ysgol heb nodi ei gyfeiriad newydd, ac os dyw ysgol newydd y plentyn ddim wedi cysylltu â'r ysgol o fewn 10 diwrnod ysgol, rhaid i'r DSP roi gwybod i'r Uwch Swyddog Lles Addysg Sir Gaerfyrddin.

**Cofnodion Diogelu Plant Electronig**

Rhaid gosod cyfrinair ar ddogfennau electronig, a rheoli pwy sy'n gallu eu gweld, yn yr un modd â'r cofnodion papur. Dylai'r rhain ddilyn yr un drefn â'r cofnodion papur (hynny yw, gyda llinellau amser a gaiff eu diweddaru ac ati) fel eu bod nhw wedi'u diweddaru os/pan fydd angen eu hargraffu neu os bydd angen eu defnyddio e.e. ar gyfer y llys. Does dim modd trosglwyddo ffeiliau electronig rhwng ysgolion/darparwyr addysg Ôl-16 oed, oni bai fod system ddiogel ar waith.
Unwaith i'r ysgol newydd ddychwelyd y dderbynneb, gan nodi ei bod wedi derbyn y ffeil, dylai'r ysgol gadw'r dderbynneb ynghyd â ffeil y plentyn.

Yn ogystal â hynny, mae modd cofnodi gwybodaeth am ddiogelu plentyn ar System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Rhaid i bob ysgol nodi a yw plentyn yn destun Cynllun Diogelu Plentyn neu os yw e'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal. Yn ogystal â hynny, mae modd storio gwybodaeth ychwanegol ar System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Serch hynny, i wneud hyn, rhaid i ysgolion ddefnyddio meddalwedd System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion er mwyn gallu sganio'r dogfennau a'u hatodi wrth gofnodion y plentyn. Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod nhw'n cadw'r wybodaeth yma'n gyfrinachol drwy ddewis y gosodiadau preifatrwydd priodol. Rhaid cadw llinell amser sydd wedi'i diweddaru o hyd